

## **Dyddiad: 27 Chwefror 2017**

### **Statws: I'w ryddhau ar unwaith**

## **Sesiynau Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr Annibynnol**

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnig sesiynau hyfforddi i bobl sy'n dymuno sefyll fel ymgeisydd annibynnol yn ystod Etholiadau Llywodraeth Leol a fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru'r flwyddyn yma.

Meddai Rhydian Thomas, Pennaeth Comisiwn Etholiadol "Mae'n bwysig bod y rheiny sy'n ystyried sefyll fel ymgeisydd annibynnol yn ystod yr Etholiadau Llywodraeth Leol Cymru sydd ar y gweill yn effro i'r rheolau a'r rheoliadau sydd ar waith.

"Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Awdurdodau Lleol priodol a'r darpar ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yma'n cael ei chyfathrebu mewn modd effeithiol. Bydd hyn yn sicrhau bod y broses o sefyll mewn etholiad mor syml â phosibl." Meddai Chris Jones, Swyddog Canlyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: "Rydyn ni'n argymhell bod pob ymgeisydd annibynnol sy'n ystyried sefyll yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai yn mynychu'r achlysur yma. Byddwn ni'n trafod y broses enwebu, rheolau ymgyrchu a bydd yr Heddlu lleol yn cynnig gwybodaeth bwysig ynghylch uniondeb".

Bydd pedair sesiwn hyfforddi yn cael eu cynnal:

- Dydd Mercher, 8 Mawrth, Merthyr Tudful
- Dydd Mercher, 15 Mawrth, Abertawe
- Dydd Llun, 20 Mawrth, Caerfyrddin
- Dydd Iau, 23 Mawrth, Wrecsam

Os ydych chi'n dymuno mynychu un o'r achlysuron yma, ffoniwch Swyddfa'r Comisiwn Etholiadol ar 02920 346800. Bydd yr achlysuron yma'n cael eu cynnal am ddim.

**DIWEDD**

## **Nodiadau i'r Golygyddion**

1. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol a gafodd ei sefydlu gan Senedd y Deyrnas Unedig. Ein bwriad ni yw sicrhau uniondeb a hyder y cyhoedd yn y Broses Lywodraethol yn y DU. Rydyn ni'n rheoleiddio cyllid y pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau sy'n sicrhau bod yr etholiadau yn cael eu cynnal yn effeithiol. Rydyn ni'n gyfrifol am arwain a rheoleiddio refferenda sy'n cael eu cynnal yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (2000).

2. Mae manylion y sesiynau yma fel a ganlyn:

a. Dydd Mercher, 8 Mawrth 2017 (6pm-8pm)

Siambr y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig,  
Stryd y Castell  
Merthyr Tudful  
CF37 8AN

b. Dydd Mercher, 15 Mawrth 2017 (6pm-8pm)

Prifysgol Abertawe, Campws y Bae  
Ffordd Fabian  
Abertawe  
SA1 8EN.

c. Dydd Llun, 20 Mawrth 2017 (6pm-8pm)

Canolfan yr Halliwell  
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  
Caerfyrddin  
SA31 3EP

ch. Dydd Iau 23 Mawrth 2017 (5pm-7pm)

Siambr y Cyngor  
Neuadd y Dref  
Wrecsam

3. Mae croeso i ymgeiswyr annibynnol o bob ran o Gymru sydd efallai â diddordeb mewn sefyll mewn etholiad. Does dim rhaid i ymgeiswyr ddod o un o'r pedair ardal sydd wedi'u nodi uchod i fynychu'r sesiynau.

4. Dyma'r Swyddogion Canlyniadau a fydd yn mynychu'r pedwar cyfarfod uchod:

(a) Gareth Chapman - Swyddog Canlyniadau Cyngor Merthyr Tudful

(b) Steve Phillips - Swyddog Canlyniadau Cyngor Castell-nedd Port Talbot

(c) Mark James - Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Gâr

(ch) Dr Helen Paterson - Swyddog Canlyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam



**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**  
**Gary Marsh**  
**Swyddog y Cyfryngau**  
**Rhif Ffôn: 01443 424120**  
**E-bost: [gary.marsh2@rctcbc.gov.uk](mailto:gary.marsh2@rctcbc.gov.uk)**